# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 7fed o Ionawr 2021 am 7.30 pm drwy fynychu o bell

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Denfer Morgan (Clerc).

**362 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Dai Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**363 Personol**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Cyfarfod a dymuno blwyddyn newydd dda i bawb.

**364 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Rhagfyr 2020.

**365 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cofnod 361b) – gofynwyd i'r Clerc atgoffa'r Cyngor Sir o'r broblem gyda cherbydau yn mynd ar hyd llwybr troed 39/345 ar Allt y Bont Newydd.

**366 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNIWYD** talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwyn Jones (Archwiliad Mewnol) | £50 |
| Archwilio Cymru (Archwiliad Allanol) | £281.75 |

**367 Cyllid, Praesept a Threth Gyngor 2021-22**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Gyllideb drafft a baratowyd gan y Clerc a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

i) cymeradwyo Cyllideb yn y swm o £4,300;
ii) cymeradwyo Praesept o £4,300; a
iii) gosod Treth Gyngor o £10.24 ar eiddo Band D.

**368 Ymgynghoriad Comisynydd Heddlu Dyfed-Powys: Mynnwch ddweud eich dweud ar gyllid a blaenoriaethau'r heddlu**

Nodwyd Ymgynghoriad Comisynydd Heddlu Dyfed-Powys a oedd bellach wedi dod i ben.

**369 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Iwan Thomas at lwybr troed a ddisgrifiwyd i'r Cyfarfod oedd mae'n debyg ar gau nes fod y bont yn cael ei drwsio, a gofynwyd I'r Clerc ddilyn nhwn i fyny.

b) Cyfeiriodd y Cynghorydd Alwen Thomas at annibendod y tu allan i'r cyn-siop ar sgwâr Ciliau Aeron a gofynwyd i'r Clerc ymchwilio os oedd ar dir cyhoeddus.

c) Cyfeiriodd y Cynghorydd John Lumley at gyflwr ochrau'r ffyrdd yn ardal Cilcennin a gofynwyd i'r Clerc holi os oedd modd i'r Cyngor sir anfon cerbyd glanhau ffyrdd allan

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40pm